| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Cabinet** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **26 Mehefin, 2018** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy**<br>**Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Peter Daniels** |
| Teitl: | **Sefydlu System Brynu Ddeinamig ar gyfer Gwasanaethau Cludo Teithwyr** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio cymeradwyaeth i ddechrau caffael i sefydlu system brynu ddeinamig (SBD) i weithredu cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bysiau lleol ar draws Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Symleiddio'r broses gaffael ar gyfer swyddogion a chyflenwyr; a chydymffurfio â rheolau caffael corfforaethol, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet cyn comisiynu contractau gwerth £2m neu fwy.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Dechrau caffael i sefydlu SBD ar gyfer cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bysiau lleol.

3.2 Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i benodi cyflenwyr i'r SBD yn ystod ei hoes, cyn belled â bod cyflenwr yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer penodi i'r SBD; dileu cyflenwyr nad ydynt bellach yn dymuno bod ar gofrestr y SBD neu'r rheiny nad ydynt yn gymwys i fod yn rhan o'r SBD.

3.3 Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i gynnal cystadlaethau bychain o dan y SBD yn ystod ei hoes ac i ddyfarnu contractau yn ôl y galw.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant i rai dysgwyr cymwys mewn ysgolion, yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisïau mewn perthynas â chludiant i golegau. Mae'r Cyngor hefyd yn tendro gwasanaethau bysiau lleol a gefnogir. Bydd y contractau presennol yn dod i ben ar ddyddiadau amrywiol a phan fyddant yn dod i ben byddant yn cael eu disodli gan gontractau dan y SBD arfaethedig. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb parhaus i ddarparu cludiant i ddysgwyr ac i ystyried a ddylid darparu

gwasanaethau bysiau lleol. Bydd y SBD yn weithredol am 7½ o flynyddoedd, gan ddod i ben ar ddiwedd Chwefror 2026.

Er mwyn parhau i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor a Deddfwriaeth yr UE, mae gofyn i'r Cyngor barhau i ddefnyddio proses dendro gystadleuol. Y bwriad yw sefydlu SBD a ganiateir dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae SBD yn cynnig rhestr fer o gyflenwyr ac o'r rhestr honno gall y Cyngor gynnal cystadleuaeth i benodi cyflenwr i ddarparu gwasanaethau cludiant i deithwyr. Yn wahanol i gytundeb fframwaith, gall cyflenwyr wneud cais i ymuno â'r SBD ar unrhyw adeg.

4.3 Sefydlir y SBD mewn dau gam. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r Cyngor yn cyflwyno hysbysiad yn mynegi ei fwriad i sefydlu SBD. Mae gan gyflenwyr sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer y SBD 30 diwrnod, ar y lleiaf, i ymateb. Ar ôl derbyn y ceisiadau, mae gan y Cyngor 10 diwrnod arall (15 diwrnod mewn amgylchiadau eithriadol) i dderbyn neu wrthod cais y cyflenwr i fod yn rhan o'r SBD. Mae pob cyflenwr, sy'n bodloni'r meini prawf dethol ac yn osgoi gwaharddiad, yn cael ei dderbyn ar y SBD. Nid oes terfyn cyfreithiol o ran nifer y cyflenwyr mewn SBD. Unwaith y bydd y SBD wedi'i sefydlu, gall y Cyngor ei defnyddio i ddyfarnu contractau penodol. Gwneir hyn drwy wahodd yr holl gyflenwyr yn y categori perthnasol i dendro. Yr amserlen arferol ar gyfer dychwelyd tendrau yw 10 diwrnod a bydd y Cyngor yn dewis y cynnig buddugol i ddarparu cludiant i ddysgwyr/ gwasanaethau bws fel bo'n briodol. Gall cyflenwyr wneud cais i ymuno â'r SBD a'i gadael ar unrhyw adeg, sy'n caniatáu i gyflenwyr newydd wneud cais i fod yn rhan o'r SBD ar unrhyw adeg cyn i'r system ddod i ben.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Clymu Cymunedau: sicrhau bod cymunedau ar draws y sir wedi eu cysylltu a bod ganddynt fynediad at y nwyddau a'r gwasanaethau y maent eu hangen.

Cymunedau Gwydn: mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chadernid.

Pobl Ifanc: hyrwyddo man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost ychwanegol o ganlyniad i'r SBD. Yn ôl prisiau cyfredol ac o dan bolisïau cyfredol, amcangyfrifir y bydd £28m o wasanaethau cludiant yn cael eu caffael yn ystod cyfnod y SBD.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae'r asesiad effaith yn ystyried newid trefniadol i'r ffordd y bydd y Cyngor yn cael gwasanaethau cludiant yn y dyfodol yn hytrach nag asesu gweithgareddau penodol (e.e gwasanaethau bysiau lleol) sydd â'u Hasesiadau o Effaith ar Les eu

hunain. Felly, nid yw'r SBD yn achosi unrhyw effaith arwyddocaol o gymharu â dulliau o brynu gwasanaethau, ac mae hefyd yn niwtral.

Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 1.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Mae Swyddogion eisoes wedi dechrau trafodaethau â chyflenwyr ynglŷn â'r SBD a byddant yn parhau i wneud hynny, efallai bydd angen cynnig hyfforddiant er mwyn i gyflenwyr all ymgysylltu'n llwyr. Nid oes unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal nac adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ynglŷn â'r SBD.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cefnogi anghenion busnes y Cyngor ac fe ymddengys eu bod yn darparu gwerth am arian, ac felly cânt eu cefnogi. Cedwir y cyllidebau o fewn y gwasanaeth a chyfrifoldeb y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yw sicrhau bod contractau cludiant i deithwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol. Nid oes unrhyw gost ariannol ychwanegol i'r awdurdod mewn perthynas â'r SBD. Mae arbedion nad ydynt yn ariannol o ran amser y swyddogion a'r cyflenwyr.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risg ychwanegol o ran y SBD, sydd yn fwy nag unrhyw ddull arall o brynu gwasanaethau. Mae'r risgiau allweddol canlynol wedi'u canfod a byddant yn cael eu rheoli gan yr Uned Caffael Cydweithredol a Gwasanaethau Cyfreithiol:

- Her gyfreithiol o ran y broses gaffael: fe'i rheolir trwy fewnbwn cyngor cyfreithiol arbenigol o ran y broses a llunio'r ddogfennaeth angenrheidiol;
- Trefniadau trosglwyddo yn codi o newid cyflenwr: gall cyflenwr dyledus a'r cyflenwr penodedig gytuno ar gynllun trosglwyddo.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae gofyn i'r Cabinet awdurdodi dechrau'r weithdrefn gaffael yn unol ag adran 2.7.2 iii Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau i gyflwyno caffael a mynd i gontractau yn unol ag adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i ymgymryd ag unrhyw weithred i hwyluso, neu sydd yn ffafriol neu ddamweiniol, cyflawniad ei swyddogaethau yn llawn); adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i wneud rheolau sefydlog i lywodraethu mynd i gontractau), adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (penodi gymaint o swyddogion a sydd rhaid er mwyn cyflawni swyddogaeth y Cyngor); adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 1999 (dyletswydd cyffredinol ar awdurdod gwerth gorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni) ac adran 1 (2) Deddf Contractau Llywodraeth Leol 1997 (rhoi pŵer i awdurdodau lleol fynd i ystod eang o gontractau darparu asedau neu wasanaethau mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau).